# TGAU

4542/02

## LLENYDDIAETH GYMRAEG
**UNED 2: Arholiad Llafar**
**HAEN UWCH**

DYDD MAWRTH, 8 Ebrill 2014

## CYFARWYDDIADAU I'R YMGEISYDD

**Tasg Grŵp (trafodaeth: dim mwy nag 20 munud)** **40 marc**

**CYFNOD PARATOI**

- Caniateir hyd at 20 munud i chi baratoi ar gyfer y drafodaeth.
- Yn ystod y cyfnod paratoi ni chaniateir defnyddio unrhyw nodiadau a dderbyniwyd o flaen llaw.
- Caniateir i chi wneud **nodiadau byr/pwyntiau bwled** yn ystod y cyfnod paratoi.

**CYFNOD ARHOLIAD**

- Trafodwch y cwestiynau **gydag aelodau eraill eich grŵp** gan gynnig rhesymau a thystiolaeth i gadarnhau eich gosodiadau.
- Caniateir i chi ddefnyddio **nodiadau byr/pwyntiau bwled** a wnaethoch yn ystod y cyfnod paratoi yn unig.

***Ni chaniateir i chi ddefnyddio'r testun print na geiriadur yn ystod y cyfnod paratoi na'r arholiad.***

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**TRAFOD LLUNYDDIAETH**

**Naill ai:** **Y Mynydd Grug**

**Neu:** **Tylluan Wen**

**Trafodwch y thema 'taith' yn y ffilm a astudiwyd gennych. Gallwch sôn am daith bywyd a theithiau/ymweliadau a wneir gan y cymeriadau.**

Fel grŵp, trafodwch hyn drwy:

(i) sôn am enghreifftiau penodol [20]

(ii) sôn am y modd y mae'r cynhyrchydd wedi cyflwyno'r thema **'taith'** yn y ffilm.

Gallwch drafod:

- gwaith a thechneg camera
- cerddoriaeth a sain
- goleuo
- gwisgoedd a cholur
- deialog. [20]

*Wrth ateb y cwestiwn, dylech* ***gymharu'r*** *ffilm â'r testun printiedig pan fo hynny'n berthnasol.*

*Cofiwch ddefnyddio termau gwerthfawrogi llunyddiaeth/llenyddiaeth.*

*Cofiwch ddyfynnu a rhoi rhesymau dros eich barn.*

**[40]**

TGAU

4542/02-A

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

**UNED 2: Arholiad Llafar**
**HAEN UWCH**

DYDD MAWRTH, 8 Ebrill 2014

## CYFARWYDDIADAU I'R ATHRO/ATHRAWES

**Tasg Grŵp (trafodaeth: dim mwy nag 20 munud)** **40 marc**

**CYFNOD PARATOI**

- Caniateir hyd at 20 munud i'r ymgeiswyr baratoi ar gyfer y drafodaeth.
- Yn ystod y cyfnod paratoi ni chaniateir defnyddio unrhyw nodiadau a dderbyniwyd o flaen llaw.
- Caniateir i'r ymgeiswyr wneud nodiadau byr/pwyntiau bwled yn ystod y cyfnod paratoi a gallant ddefnyddio'r rhain yn yr arholiad.
- Ni chaniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio'r testun print na geiriadur yn ystod y cyfnod paratoi na'r arholiad.

**Swyddogaeth yr athro/athrawes**

Dylai pob grŵp geisio bod mor hunan-gynhaliol â phosibl ond os oes angen dylai athro/athrawes:

- gyflwyno'r dasg i ddechrau'r drafodaeth
- sicrhau bod y grŵp yn dechrau ac yn parhau'r drafodaeth
- hybu newid cyfeiriad yn ôl gallu'r grŵp a gofalu bod yr ymgeiswyr yn trafod yr isgwestiynau i gyd
- ymyrryd pan fo angen, yn arbennig pan fo'r sgwrsio'n ddibwrpas ac yn cuddio diffyg gwybodaeth a syniadau neu pan nad yw'r wybodaeth neu'r dystiolaeth sydd ganddynt yn berthnasol i'r cwestiwn
- bod yn hyblyg a newid a derbyn pob syniad lle mae tystiolaeth i'w gadarnhau
- gofalu bod y drafodaeth yn cael ei chloi o fewn 20 munud.

ⓗ WJEC CBAC Cyf. 

**TRAFOD LLUNYDDIAETH**

**Naill ai:** **Y Mynydd Grug**

**Neu:** **Tylluan Wen**

**Trafodwch y thema 'taith' yn y ffilm a astudiwyd gennych. Gallwch sôn am daith bywyd a theithiau/ymweliadau a wneir gan y cymeriadau.**

Fel grŵp, trafodwch hyn drwy:

(i) sôn am enghreifftiau penodol [20]

(ii) sôn am y modd y mae'r cynhyrchydd wedi cyflwyno'r thema **'taith'** yn y ffilm.

Gallwch drafod:

- gwaith a thechneg camera
- cerddoriaeth a sain
- goleuo
- gwisgoedd a cholur
- deialog. [20]

*Wrth ateb y cwestiwn, dylech* ***gymharu'r*** *ffilm â'r testun printiedig pan fo hynny'n berthnasol.*

*Cofiwch ddefnyddio termau gwerthfawrogi llunyddiaeth/llenyddiaeth.*

*Cofiwch ddyfynnu a rhoi rhesymau dros eich barn.*

**[40]**

**HAEN UWCH**

**Dylai'r ymgeiswyr gydadweithio fel grŵp wrth drafod y cwestiynau.**

| | | |
|---|---|---|
| | **36 – 40** | |
| AA1 | • arddangos gwybodaeth drylwyr am y ffilm a chyflwyno tystiolaeth i gadarnhau safbwynt yn ardderchog gan gyfeirio at olygfeydd perthnasol a defnyddio dyfyniadau yn briodol<br>• trafod plot ac adeiladwaith yn dreiddgar<br>• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r cymeriadau a'r berthynas rhyngddynt<br>• dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r themâu a'u datblygiad yn y testun | 18 – 20 |
| AA2 | • dangos blaengaredd ac aeddfedrwydd wrth gyfeirio at y ffynhonnell brintiedig a'r ffilm<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llunyddiaeth/llenyddiaeth yn dreiddgar<br>• ymdrin yn dreiddgar ag addasrwydd arddull, techneg a'r defnydd o iaith gan ystyried eu heffeithiolrwydd | 18 – 20 |
| | **28 – 35** | |
| AA1 | • arddangos gwybodaeth fanwl am y ffilm a chyflwyno tystiolaeth i gadarnhau safbwynt yn dda gan gyfeirio at olygfeydd perthnasol a defnyddio dyfyniadau addas<br>• trafod plot ac adeiladwaith yn dda iawn<br>• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda iawn o'r cymeriadau a'r berthynas rhyngddynt<br>• dangos dealltwriaeth dda o'r themâu a'u datblygiad yn y testun | 14 – 17 |
| AA2 | • dangos aeddfedrwydd wrth gyfeirio at y ffynhonnell brintiedig a'r ffilm<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llunyddiaeth/llenyddiaeth yn dda iawn<br>• ymdrin yn fanwl ag addasrwydd arddull, techneg a'r defnydd o iaith ac ystyried eu heffeithiolrwydd | 14 – 17 |
| | **22 – 27** | |
| AA1 | • arddangos gwybodaeth dda am y ffilm a chyflwyno tystiolaeth gan gyfeirio at olygfeydd perthnasol<br>• trafod plot ac adeiladwaith yn dda<br>• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriadau a'r berthynas rhyngddynt<br>• dangos dealltwriaeth o'r themâu a'u datblygiad yn y testun | 11 – 13 |
| AA2 | • cyfeirio'n ystyrlon at y ffynhonnell brintiedig a'r ffilm<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi llunyddiaeth/llenyddiaeth yn dda<br>• trafod addasrwydd arddull, techneg a'r defnydd o iaith gan wneud sylwadau pwrpasol | 11 – 13 |
| | **16 – 21** | |
| AA1 | • arddangos gwybodaeth am y ffilm gan gyfeirio'n fanwl lle bo hynny'n briodol at y stori a'r sefyllfa<br>• trafod plot ac adeiladwaith yn foddhaol<br>• dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriadau<br>• dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r themâu a'u datblygiad yn y testun | 8 – 10 |
| AA2 | • gallu cyfeirio at y ffynhonnell brintiedig a'r ffilm<br>• defnyddio rhai termau gwerthfawrogi llunyddiaeth/llenyddiaeth<br>• adnabod ac ymdrin ag arddull, techneg a'r defnydd o iaith | 8 – 10 |
| | **8 – 15** | |
| AA1 | • arddangos gwybodaeth am y ffilm gan gyflwyno ffeithiau perthnasol yn gywir a chyfeirio lle bo hynny'n briodol at y stori a'r sefyllfa<br>• trafod y stori a sut mae'n datblygu<br>• trafod cymeriadau yn eithaf llawn gan roi manylion perthnasol amdanynt<br>• dechrau dangos peth ymwybyddiaeth o brif themâu'r ffilm | 4 – 7 |
| AA2 | • defnyddio ambell derm gwerthfawrogi llunyddiaeth/llenyddiaeth<br>• dangos peth dealltwriaeth o arddull, techneg a'r defnydd o iaith | 4 – 7 |
| | **0 – 7** | |
| AA1 | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y ffilm trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol a chyfeirio at y stori a'r sefyllfa<br>• tueddu i ailadrodd rhannau o'r stori<br>• trafod y cymeriadau a rhoi manylion amdanynt | 0 – 3 |
| AA2 | • cyfeirio at rai elfennau yn yr arddull, technegau neu ddefnydd o iaith | 0 – 3 |